

Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias & Sara Dafydd

Nod Cynllun Llesiant	Bydd pob prosiect seiliedig ar le yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith darparu seiliedig ar le yn blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion.
Ein Gwerthoedd	Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampol
Enw Grŵp Prosiect	Llesiant Llanbedr Pont Steffan
Cadeirydd Is-Gadeirydd	Greg Jones , Cyngor Sir Ceredigion Gwilym Dyfri Jones , Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Aelodaeth y Grŵp Prosiect (Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)

Cyngor Sir Ceredigion	Timothy Bray, Sara Dafydd, Carwyn Young, Rhidian Harries, Rob Starr, Cathryn Morgan, Connor Cook, Sarah Groves-Phillips, Llinos Hallgarth, Lowri Evans, Lynne Walters, Rachel Auckland, Alison Heal, Cllr Ann Bowen Morgan, Sian Salcombe, Sara Humphreys, David Jones, Bethan James, Anwen Thomas, Teleri Elias, Eirlys Lloyd, Rachel Cutler	Cyfoeth Naturiol Cymru	Aled Davies, Thomas Vetter
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Jina Hawkes, Peter Skitt, Terri-Ann Patrick, Meinir Harries, Nathan	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Emyr Jones, Hazel Thomas, Laura Cait Driscoll

	Davies, Dr Phil Kloer, Jan Batty, Angela Burns		
Heddlu Dyfed-Powys	Yr Arolygydd Matthew Howells	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Wayne Thomas, Iwan Cray
Barcud	Catrin Owen, Helen Draycott	CAVO	Hazel Lloyd-Lubran, Teleri Davies
Home-Start	Sharon Morris	Ysgol Bro Pedr	Deiniol Williams
Banc Bwyd Llambod	Julia Lim	Canolfan Teulu Llambod	Elin Miles, Jen Leigh
Arts4Wellbeing	Mike Hotson, Sara Wentworth	Tai Wales & West	Rhiannon Ling
Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru	Roxanne Treacy, Vikki Butler		

CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT

Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 07.11.23

8.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau: Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd bod y canlynol wedi ymddiheuro am na fedrent ddod i'r cyfarfod: *Mike Hotson, Sara Wentworth, Alison Heal, Rachel Auckland, Wayne Thomas, Phil Kloer.*

8.2 Taith o'r Ganolfan Lles:

Cafodd aelodau'r grŵp prosiect a fynychodd y cyfarfod wyneb yn wyneb daith o gyfleusterau'r Ganolfan Lles gan Carwyn Young (CY) a Rhidian Harries (RH). Pwysleisiodd Teleri Davies (TD) a Sharon Morris (SM) bwysigrwydd cysylltu â sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol i sicrhau nad yw sesiynau penodol yn cystadlu â digwyddiadau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y gymuned. Cadarnhaodd Greg Jones (GJ) a CY fod y Ganolfan Lles yn anelu at ategu yn hytrach na chystadlu â gweithgareddau a mentrau sydd eisoes yn digwydd yn Llanbedr Pont Steffan, a nododd y bydd sgysiau yn parhau gyda phartneriaid a'r gymuned i sicrhau

hyn. Cynigiodd Julia Lim (JL) y gellid gweithredu menter talu ymlaen yn y Ganolfan, er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n profi caledi ddefnyddio'r cyfleusterau.

8.3 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 yn gywir. Cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

8.4 Diweddariad BGC: Fframwaith Llywodraethu a Chyflenwi Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 gan gynnwys adborth cychwynol o'r Gweithdai BGC:

Rhoddodd Tim Bray (TB) ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ar Fframwaith Llywodraethu a Chyflenwi Cynllun Llesiant Lleol 2023-28. Yn dilyn trafodaethau gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), cytunwyd y byddai 4 gweithdy yn cael eu cynnal gyda phob un yn canolbwyntio ar un o'r 4 amcan a gynhwysir yn y Cynllun Llesiant Lleol, gyda mynd i'r afael â chaledi a thlodi yn thema drawsbynciol ar draws pob gweithdy.

Cadarnhaodd TB fod pob un o'r 4 gweithdy bellach wedi cael eu cynnal, gyda phresenoldeb da o tua 20 o gyfranogwyr ym mhob un. Roedd y gweithdy cyntaf a hwyluswyd gan Dr Rhodri Llwyd-Morgan yn canolbwyntio ar cydweithio i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Amcan 4). Hwyluswyd yr ail gan yr Athro Phil Kloer ar weithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol (Amcan 2). Hwyluswyd y trydydd gan Gillian Perry, ac roedd yn canolbwyntio ar weithio i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. Yn olaf, edrychodd y pedwerydd gweithdy ar ffyrdd o sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion, a cafodd ei hwyluso gan Russell Hughes-Pickering. Cynhaliwyd y gweithdai gan ddefnyddio'r platfform rhyngweithiol ar-lein Mentimeter, sy'n caniatáu casglu mewnbwn gan gyfranogwyr gan ddefnyddio Cwmwl Geiriau, Polau, a Cwsisiau. Gan fyfyrto ar y trafodaethau a gynhaliwyd ar draws y 4 gweithdy, nododd TB fod cyfathrebu effeithiol yn ymddangos fel maes y gellid gwella arno.

Gyda'r gweithdai bellach wedi'u cwblhau, bydd yr adborth gan gyfranogwyr yn cael ei ystyried ac adroddiad yn cael ei baratoi cyn y cyfarfod BGC nesaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 4 Rhagfyr 2023. O ran gweithredu, bydd angen i'r BGC gytuno pa bwyllgorau llywio neu grwpiau partneriaeth fydd yn cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd, a sicrhau bod dulliau adrodd priodol ar waith ar gyfer pob un.

8.5 Cyflwyniad: Grymuso Dyfodol Llamed: Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc:

Cyflwynodd Laura Cait Driscoll (LCD) ganfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb y Prosiect Ymgysylltu Ieuencid a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Fel rhan o'r astudiaeth, archwiliwyd y rhesymau pan fod angen y prosiect hwn, ac ystyried ffyrdd gwahanol i'r weithredu. Mae'r argymhellion yn darparu fframwaith cryf ar gyfer datblygu rhaglenni a gweithgareddau effeithiol a fydd o fudd i bobl ifanc Llanbedr Pont Steffan, wrth weithio ochr yn ochr â mentrau sydd eisoes ar waith yn y dref. Yn y pen draw, bydd buddsoddi yn natblygiad cyfannol pobl ifanc yr ardal, yn golygu buddsoddi yn ffyniant tymor hir Llamed.

Y nod yw grymuso ieuencid Llanbedr Pont Steffan drwy ganolbwyntio ar dwf personol, hybu hunan-barch a hyder, darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, a hyrwyddo cyfranogiad gweithredol yn y gymuned. Craidd y prosiect yw'r gweithgareddau a'r mentrau. Mae'r gweithgareddau a mentrau arfaethedig yn cynnwys gweithdai datblygu sgiliau i arfogi pobl ifanc â sgiliau bywyd hanfodol, gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i annog cyfranogiad mewn mentrau lleol, ac amrywiaeth o weithgareddau hamdden i feithrin rhyngweithio cymdeithasol, gwaith fim ac archwilio diddordebau amrywiol.

Bydd cyllid yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect, ac mae cyfleoedd ariannu amrywiol wedi'u nodi a'u hystyried gan gynnwys rhoddion ariannol, cyfraniadau gwirfoddolwyr, grantiau, nawdd, buddsoddiadau cymunedol, a phartneriaethau. Cyn gwneud cais am gyllid, bydd angen ystyried y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect a llunio cynlluniau i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Cadarnhaodd LCD ei fod yn gobeithio y gellir sefydlu grŵp llywio sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod pob cyfle yn cael ei ystyried o ran amser a buddsoddiad adnoddau.

Nododd Dai Jones (DJ) y byddai'r prosiect yn cyd-fynd yn dda â'r hyn y mae Gwasanaeth Cefnogi ac Atal yr Awdurdod Lleol (ALI) yn gobeithio ei gyflawni, ac y byddai'n agored i drafodaeth bellach ynghylch gweithio ar y cyd. Dywedodd DJ fod y gwasanaeth yn ddiweddar wedi cynnal sesiynau cynnal a chadw beiciau gyda phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd a arweiniodd at ymgysylltu cadarnhaol. Atgyfnerthodd Sara Dafydd (SD) fod y prosiect yn adlewyrchu tasgau a gytunwyd fel rhan o Gynllun Llesiant Lleol 2023-28, yn enwedig yr agwedd o ddatblygu sgiliau a grymuso pobl ifanc i wella manau cymunedol. Gyda hyn mewn golwg, nododd SD y byddai cymryd rhan yn y prosiect hwn yn werthfawr.

Bu Jan Batty (JB) yn myfyrio ar y ffordd orau o ymgysylltu â phobl ifanc a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Llesiant nesaf. Rhoddodd LCD drosolwg o'r dull Ymgynghori Gwrth-ymgynghori, sy'n cyfeirio at ymgynghori â

phobl ifanc mewn ffordd anghydfurfiol fel ffordd o gasglu eu safbwyntiau a'u barn. Adroddodd TD fod Elusen Ieuenctid Aberteifi Area 43 wedi bod yn arwain ar brosiect ieuenctid sy'n ceisio clywed lleisiau pobl ifanc a sicrhau eu bod yn cael eu grymuso trwy gynnal nosweithiau pizza a gweithgareddau eraill i sbarduno sgysiau. Atgoffodd Eirlys Lloyd (EL) y grŵp am y prosiect ARFOR, sef menter ar y cyd gan Gyngorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.

Atgyfnerthodd Gwilym Dyfri Jones (GDJ) bwysigrwydd y Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc, a'r angen i roi rhywbeth ar waith i bobl ifanc yn Llanbedr Pont Steffan. Nododd GJ fod sgysiau ar y gweill o ran datblygu gwasanaethau yn y Ganolfan Llesiant i deuluoedd a phobl ifanc eu defnyddio, fel eu hystafell deulu sydd â mynediad at gegin.

Cam Gweithredu: Laura Cait Driscoll i rannu'r adroddiad llawn gyda'r Tîm Partneriaethau ar gyfer dosbarthu gyda'r grŵp prosiect. Cam Gweithredu: Aelodau'r grŵp prosiect sy'n dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau pellach ar y Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc i gysylltu â Sara Dafydd.

8.6 Cyflwyniad: Proffil Clwstwr Gofal Sylfaenol ar gyfer De Ceredigion:

Cyflwynodd Jan Batty (JB) y Proffil Clwstwr Gofal Sylfaenol ar gyfer De Ceredigion, a ddisbarthwyd yn flaenorol ynghyd â phapurau'r cyfarfod hwn. Nododd JB fod y proffil hwn yn ategu'r Adroddiad Sylfaenol a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol gan Rob Starr o Dîm Ymchwil a Pherfformiad Cyngor Sir Ceredigion (CSC) – Ffocws yr Adroddiad Sylfaenol yw flodi ac amddifadedd, lle mae'r Proffil Clwstwr Gofal Sylfaenol yn benodol i iechyd. Mae'r proffil yn rhoi trosolwg o ddata a gasglwyd o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Data Cyfrifiad), Porth Data Gofal Sylfaenol a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Bwriad y wybodaeth hon yw rhoi trosolwg o rai o'r materion allweddol, ar y lefel ddaearyddol leiaf sydd ar gael, sy'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd y clwstwr. Dylid defnyddio'r data ar y cyd ag Asesiad Anghenion Poblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn datblygu Dangosfwrdd Gofal Sylfaenol, a allai ddisodli'r offeryn hwn yn y dyfodol. Mae Ceredigion wedi'i rhannu'n 2 glwstwr (Gogledd a De) – Mae 5 meddygfa yn gweithredu yn ardal Clwstwr De Ceredigion, sy'n cynnwys meddyg teulu Llanbedr Pont Steffan. Mae'r proffiliau yn cymryd tegwch iechyd fel yr egwyddor sylfaenol h.y. gwahaniaethau y gellir eu hosgoi a gwahaniaethau annheg mewn iechyd oherwydd nodweddion gwarchoddedig, amddifadedd economaidd-gymdeithasol ayyb.

Eglurodd JB bod ffigyrau'n awgrymu bod clefyd cardiofasgwlaidd yn faes penodol sydd angen sylw ychwanegol yn ardal Llanbedr Pont Steffan, a chadarnhaodd GJ bod cyfle i'r Ganolfan Llesiant weithio ochr yn ochr â meddygfeydd i fynd i'r afael â ffactor risg

gordewdra. Awgrymodd JB fod y grŵp yn archwilio gwefan [Mapiau Iechyd Cymru](#), sy'n caniatáu archwilio ystod eang o ddangosyddion iechyd yn ôl ardal, mapio tueddiadau mewn data dros amser a gwneud cymariaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Cam Gweithredu: Sara Dafydd i ailgylchredeg Proffil Clwstwr Gofal Sylfaenol De Ceredigion ynghyd â chyflwyniad Jan Batty.

8.7 Diweddariad: Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion:

Croesawyd Angela Burns (AB) i'w chyfarfod grŵp prosiect BGC Ceredigion cyntaf gan y Cadeirydd. Adroddodd AB fod prosiectau prawf cysyniad amrywiol ar y gweill ar draws rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) sy'n anelu at wella arloesedd cymdeithasol trwy ddefnyddio llesiant fel y gyrrwr. Lansiodd BIPHDd a PCYDDS eu sesiwn gyntaf o Crwydro Canol Wythnos yn Llanbedr Pont Steffan ddiwedd mis Hydref, gyda niferoedd da. Mae pobl o phob oedran a gallu yn cael eu hannog i fynychu, a'r gobaiith yw y gellir efelychu'r fenter hon ledled Gorllewin Cymru. Adroddodd AB mai hwn yw'r cyntaf o nifer o fentrau ar y gweill, a chynigiodd ddychwelyd i ddarparu diweddariad pellach unwaith y bydd y prosiectau hyn yn cael eu datblygu ymhellach. Cadarnhaodd AB eu bod hefyd yn gysylltiedig â chydlynedd Cerdded Er Lles Gorllewin Cymru Ceredigion.

Cadarnhaodd JL fod y sesiynau Crwydro Canol Wythnos bellach wedi'u cynnwys ar dudalen digwyddiadau Llambled21 <https://lampeter21.co.uk/>, sef gwasanaeth newydd sy'n darparu newyddion a gwybodaeth i ardal Llanbedr Pont Steffan. Nododd GJ fod Dewis Cymru yn ffynhonnell werthfawr arall o wybodaeth a chynghor ar weithgarwch llesiant yng Ngheredigion.

Cam Gweithredu: Julia Lim i rannu manylion cyswllt cydlynedd Llambled21 gyda Sara Dafydd.

8.8 Cyflwyniad: Diweddariad Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion

Rhoddodd Ann Owen (AO) y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion. Eglurodd fod y Partneriaethau hyn wedi'u sefydlu gyda'r ddealltwriaeth bod bwyd yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n codi o faterion fel gordewdra, tlodi bwyd, newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae rôl AO yn canolbwyntio ar weithredu cydweithredol, gan ddod â rhwydweithiau at ei gilydd a hwyluso cyfathrebu. Cynhyrchwyd Partneriaethau Bwyd Lleol gan [Sustainable Food Places](#), a chadarnhaodd AO fod Ceredigion ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ddod yn Le Bwyd Cynaliadwy cydnabyddedig. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol yn nodi 6 mater allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni newid sylfaenol yn y system fwyd:

1. Llywodraethu a Strategaeth Bwyd: Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol o lywodraethu a gweithredu bwyd da.

2. Symudiad Bwyd Da: Adeiladu ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth bwyd actif a mudiad bwyd da lleol.
3. Bwyd Iach i Bawb: Mynd i'r afael â thlodi bwyd, afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet a mynediad at fwyd iach fforddiadwy.
4. Economi Bwyd Cynaliadwy: Creu economi bwyd cynaliadwy, ffyniannus ac amrywiol.
5. Arlwyo a Chaffael: Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi lleol.
6. Bwyd i'r Blaned: Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.

Nododd AO fod cyllid wedi'i sicrhau i gydweithio â sefydliadau fel ysgolion, gerddi cymunedol, byrddau iechyd a banciau bwyd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyllid hwn a hyrwyddo cydweithio, mae 3 digwyddiad wyneb yn wyneb wedi'u trefnu yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi, yn ogystal a digwyddiadau ar-lein. Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn gweithio ar lefel strategol a chyflenwi. Yn ystod y digwyddiad a gynhaliwyd yn Aberystwyth, nododd AO fod arbenigwr bwyd wedi mynegi awydd i fapio'r holl fannau tyfu, gan gynnwys rhandiroedd, ledled Ceredigion. Gofynnodd AO i aelodau gysylltu pe bai'r grŵp yn ymwybodol o bartner a allai gydweithio ar y prosiect hwn.

Cam Gweithredu: Holl aelodau'r grŵp prosiect i ystyried a ydynt yn ymwybodol o bartner addas a fyddai â diddordeb mewn cydweithio ar y prosiect mapio manau tyfu.

Cam Gweithredu: Ann Owen i rannu rhagor o fanylion am y cynnig mapio manau tyfu i Sara Dafydd i'w rannu gyda'r grŵp prosiect.

Cadarnhaodd AO fod y cynllun grant dan sylw wedi agor ar y 7 Tachwedd a bod ganddo amserlen byr, gyda'r nod y byddai'r prosiect llwyddiannus yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Mae cyfanswm o £500- £5000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar unrhyw agwedd o'r system fwyd, ac sy'n gofyn am o leiaf 2 bartner o wahanol sectorau. Awgrymodd AO brosiect arall y gellid ei ystyried, sef hwyluso sianeli cyfathrebu rhwng sefydliadau lawr gwlad a'r BGC. Cynigiodd EL y gallai'r cynllun grant gael ei hyrwyddo trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CSC.

Cam Gweithredu: Ann Owen i anfon meini prawf a ffurflen gais y cynllun grant at Sara Dafydd i'w rhannu gyda'r grŵp prosiect.

8.9 Eitem Sefydlog: A oes angen i ni drafod unrhyw fater a godwyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru?:

Nodwyd y gallai Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru gefnogi gwaith a wnaed fel rhan o'r Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc, ac y byddai hyn yn cael ei archwilio ymhellach wrth i drafodaethau ddatblygu.

8.10 Unrhyw Fater Arall:

Nododd SD fod swyddfa Cyngor Ar Bopeth (CAB) wedi dechrau cynnal sesiynau galw heibio yn Llanbedr Pont Steffan ddydd Llun, a bod gwybodaeth am hyn wedi'i dosbarthu ar draws fforymau amrywiol.

Awgrymodd EL fod diweddariad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y grŵp prosiect ar brosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Llanbedr Pont Steffan sy'n canolbwyntio ar drawsnewid trefi.

Cam Gweithredu: Diweddariad gan Eirlys Lloyd ar brosiectau UKSPF yn Llanbedr Pont Steffan i'w gynnwys ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a daeth â'r cyfarfod i ben.

8.11 Cyfarfod nesaf: 29.01.24